Cardiff and Vale College
Coleg Caerdydd a'r Fro

Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael.

Strategaeth Sgiliau 2022-2023

Rebecca Preece

Inspirational, Inclusive, Influential

Ysbrydoledig, Cynhwysol, Dylanwadol.

Strategaeth Sgiliau CAVC

Cyflwyniad

Pwrpas y strategaeth hon yw darparu fframwaith clir a chynhwysfawr i lunio gweledigaeth Coleg Caerdydd a'r Fro i ddatblygu Sgiliau dros y cyfnod 2022-2023. Mae Coleg Caerdydd a'r Fro wedi ymrwymo i ddatblygu sgiliau pob dysgwr ar draws y Coleg. Er bod y Coleg yn cynnig ystod eang o gyrsiau sgiliau galwedigaethol, yn y cyd-destun hwn mae'r term 'sgiliau' yn cyfeirio at lythrennedd, rhifedd, llythrennedd digidol, a sgiliau cyflogadwyedd hanfodol. Mae'r sgiliau hyn yn amrywio ar draws pob lefel mewn addysg bellach, dysgu yn y gwaith a dysgu oedolion yn y gymuned.

Bydd y strategaeth hon yn sicrhau bod y Coleg yn mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol mewn perthynas â datblygu sgiliau, ac yn manteisio ar dechnolegau cyfredol a newydd i gefnogi dysgu.

Yn benodol, bydd y strategaeth yn sicrhau:

Mae dysgwyr CAVC yn cael cyfleoedd i ddatblygu sgiliau ar gyfer dysgu, sgiliau ar gyfer twf, sgiliau ar gyfer anghenion cymunedol lleol, sgiliau y mae cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi a sgiliau ar gyfer cyflogaeth yn unol â 'Datganiad Polisi Llywodraeth Cymru ar '*Sgiliau*' a '*Cynllun Gweithredu Sgiliau*'.

Bydd dysgwyr yn cael yr ystod lawn o sgiliau hanfodol sydd eu hangen arnynt i symud ymlaen i gyflogaeth neu raglenni dysgu pellach. Mewn fframwaith prentisiaeth neu raglenni astudio eraill lle mae cymwysterau Sgiliau Hanfodol yn orfodol, bydd cymwysterau procsi cydnabyddedig yn eithrio dysgwyr rhag cwblhau cymwysterau Sgiliau Hanfodol ffurfiol fel y'u diffinnir gan Lywodraeth Cymru.

Mae dysgwyr yn symud ymlaen o fod angen cymorth ac arweiniad manwl i gymhwyso sgiliau'n annibynnol yn eu prif raglen astudio. (Estyn 2017).

Bydd dysgwyr yn datblygu'r defnydd o offer, technolegau a thechnegau digidol i'w galluogi i ddod yn ddigidol-gymwys o fewn y fframwaith galluoedd digidol.

Mae gan staff sy'n addysgu Sgiliau fframwaith clir i'w ddilyn, wedi'i gefnogi gan raglen DPP bwrpasol (gweler yr adrannau Cymwysterau Staff a DPP).

Trosolwg o'r Strategaeth Sgiliau

Mae gan y strategaeth ddau lwybr diffiniedig:

1. Cymwysterau Sgiliau Hanfodol

Mae'r llwybr hwn yn galluogi dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau er mwyn cyflawni Cymhwyster Sgiliau Hanfodol, yn amrywio o E1 i L3. Bydd dysgwyr yn dilyn y llwybr hwn os ydynt ar raglen astudio alwedigaethol amser llawn.

Mae'r Sgiliau Hanfodol presennol wedi'u cymeradwyo gan Cymwysterau Cymru tan fis Awst 2022, fodd bynnag, disgwylir estyniad i'r gyfres gyfredol o gymwysterau gan nad oes adolygiad ffurfiol wedi'i gynnal eto. Bydd dysgwyr yn datblygu eu sgiliau gydag arweiniad ymarferwr sgiliau cymwys, a fydd yna'n goruchwylio tasg dan reolaeth a naill ai prawf cadarnhau neu drafodaeth strwythuredig.

Strategaeth Dysgwyr Mwy Abl a Thalentog (M.A.T).

Bydd dysgwyr MAT yn cael eu herio i ddatblygu eu sgiliau, gyda'r opsiwn i ennill cymwysterau L3, naill ai mewn llythrennedd digidol, cyflogadwyedd hanfodol, rhifedd neu lythrennedd. Bydd y cymhwyster a ddewisir yn dibynnu ar gymwysterau blaenorol a pha gymhwyster sydd fwyaf perthnasol i'w rhaglen alwedigaethol

Bydd gweithrediad llwyddiannus y strategaeth hon yn cael ei gefnogi gan gyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol ar gyfer datblygiad staff a fydd yn cynnwys:

- cyfnod sefydlu cynhwysfawr ac amserol mewn dysgu, addysgu ac asesu ar gyfer yr holl staff newydd;
- cymwysterau addysgu – cymwysterau L3 TAR ac Ymarferwyr Sgiliau Hanfodol;
- arweiniad gan 'Arweinydd Sgiliau' penodedig;
- gweithdai datblygu staff, gweminarau a gweithgareddau dysgu cyfunol;
- cyfleoedd ar gyfer adfyfyrio proffesiynol, dysgu gan gymheiriaid a rhannu arfer effeithiol;
- presenoldeb mewn digwyddiadau rhwydwaith.

2. Ailsefyll Arholiadau TGAU

Bydd y llwybr hwn yn cael ei gynnig i ddysgwyr sydd â gradd D TGAU mewn mathemateg a/neu Saesneg. Bydd dysgwyr yn mynychu un dosbarth ailsefyll TGAU bob blwyddyn academaidd. Nid yw'n ofynnol i ddysgwyr sy'n ailsefyll TGAU hefyd gwblhau Sgil Hanfodol. Mewn amgylchiadau eithriadol, bydd dysgwyr â gradd E yn cael cynnig ailsefyll TGAU. Cytunir ar hyn fesul achos. Yn ogystal, gellir cynnig ailsefyll TGAU i ddysgwyr â gradd E

unwaith y byddant wedi cwblhau Sgiliau Hanfodol mewn Cyfathrebu a Chymhwyso Rhif ar lefel 2 a llwyddo mewn asesiad diagnostig yn ystod y tymor cyntaf.

Model Cyflwyno, gan gynnwys Cymorth Sgiliau Penodol

Sefydlu Graddfa Anghenion Dysgwyr

Bydd maint yr angen ar gyfer dysgwyr yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro yn cael ei sefydlu gan ddefnyddio Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru (WEST). Bydd canlyniadau'r Asesiad Cychwynnol yn cael eu casglu gan y Goruchwyliwr Dysgu a Sgiliau a'u rhannu gyda thiwtoriaid cwrs a Phenaethiaid Adran. Bydd gan y staff canlynol gyfrifoldebau penodol:

Bydd Tiwtoriaid/Cydlynwyr Cwrs yn:

- sgrinio dysgwyr i sicrhau bod dysgwyr yn cael mynediad at gwrs sydd fwyaf priodol ar gyfer eu lefel sgiliau;
- sicrhau bod pob dysgwr yn cwblhau asesiad diagnostig llawn erbyn diwedd y cyfnod sefydlu. (Fel arfer o fewn 4 wythnos i gofrestru);
- defnyddio canlyniadau asesu WEST i roi adborth i ddysgwyr a chytuno ar dargedau dysgu unigol ar gyfer llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol. Bydd y targedau'n cynnwys nodau tymor byr a hirdymor. Bydd y rhain yn cael eu cynnwys ar yr e-GDU ar y llwyfan ar-lein perthnasol, ac felly'n hygyrch i'r holl staff sy'n ymwneud â chyflwyno rhaglen y dysgwr;
- adolygu targedau dysgwyr yn rheolaidd ac yn briodol;
- parhau i ddefnyddio canlyniadau WEST i gynllunio ar gyfer dysgu gwahaniaethol;
- defnyddio WEST ac adnoddau priodol eraill i adeiladu sgiliau dysgwyr a'u symud ymlaen trwy bob lefel.

Darlithwyr/Aseswyr

Bydd staff* cymwys a phrofiadol yn datblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar ddysgwyr i gyflawni'r targedau y cytunwyd arnynt yn eu cynllun dysgu unigol. Byddant yn gyfrifol am:

- datblygu cynlluniau gwaith a chynlluniau gwersi sy'n rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau yng nghyd-destun eu rhaglen astudio alwedigaethol;
- defnyddio WEST i lywio addysgu a dysgu;
- cyfleoedd i ddysgwyr gael mynediad at adnoddau dysgu cyfredol a phenodol,

gan ddilyn model cyflwyno dysgu cyfunol;

- strwythuro gweithgareddau fel bod dysgwyr yn datblygu mwy o annibyniaeth ac yn cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain;
- gosod targedau sgiliau penodol a heriol ar gyfer dysgwyr; adolygu targedau yn rheolaidd gyda dysgwyr;
- ymgorffori sgiliau yn y brif raglen ddysgu, gyda ffocws penodol ar lythrennedd digidol;
- cyfeirio dysgwyr sydd angen cymorth ychwanegol at yr hyfforddwyr dysgu a sgiliau.

Hyfforddwyr Dysgu a Sgiliau/Canolfannau Sgiliau

Byddant yn gyfrifol am:

- defnyddio WEST i asesu dysgwyr a datblygu sgiliau dysgwyr; eu symud ymlaen drwy'r lefelau;
- darparu cymorth ychwanegol i ddysgwyr a gyfeiriwyd naill ai trwy gymorth 1 i 1, cymorth yn y dosbarth neu yn un o'r Canolfannau Sgiliau;
- strwythuro gweithgareddau i hyrwyddo ymreolaeth dysgwyr a dysgu cydweithredol;
- gosod targedau sgiliau penodol a heriol ar gyfer dysgwyr;
- darparu hyfforddiant i diwtoriaid cwrs ar y defnydd effeithiol o WEST;
- darparu adnoddau cyfoes a diddorol i ddysgwyr, wrth ddatblygu eu sgiliau;
- cofnodi cefnogaeth a chynnydd dysgwyr yn eu e-GDU a'r llwyfan perthnasol.

Arweinwyr Sgiliau

- cefnogi darlithwyr/aseswyr i gyflwyno sgiliau;
- cyfrannu at ddatblygu adnoddau cyfredol ar gyfer cyflwyno sgiliau;
- darparu hyfforddiant i ddarlithwyr/aseswyr ar gyflwyno sgiliau, gan gynnwys digwyddiadau safoni;

- sicrhau ansawdd tasgau dan reolaeth a phrofion cadarnhau ar gyfer cymwysterau sgiliau hanfodol;
- sicrhau ansawdd cwblhau portffolios dysgwyr;
- olrhain cynnydd dysgwyr;
- darparu data i'r Pennaeth Llwyddiant Dysgwyr;
- cysylltu ag Aseswyr Ansawdd Allanol o'r Sefydliad Dyfarnu perthnasol.

Rheolwyr

Mae hyn yn cyfeirio at bob rheolwr sydd â chyfrifoldeb am gyflwyno'r cwricwlwm.

- nodi maint yr angen a dyrannu adnoddau priodol i gefnogi'r dysgwyr hynny sydd â'r anghenion mwyaf;
- sicrhau bod gan bob darlithydd/aseswr a hyfforddwr dysgu a sgiliau gymwysterau priodol;
- sicrhau bod pob darlithydd/aseswr a hyfforddwr dysgu a sgiliau yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn digwyddiadau DPP a safoni;
- bod yn ymwybodol o ddatblygiadau newydd, gan gynnwys blaenoriaethau LlC, Cymwysterau Cymru ac Estyn;
- cynllunio cwricwlwm sy'n ddigon cadarn a heriol ar gyfer cyflwyno sgiliau;
- nodi meysydd o arfer da i'w rhoi ar waith yn CAVC ar gyfer cyflwyno sgiliau;
- sicrhau ansawdd addysgu a dysgu sgiliau trwy arsylwi gwersi a theithiau dysgu;
- ymateb i adborth dysgwyr a rhoi newid a gwelliannau ar waith, lle bo angen;
- monitro effaith sgiliau ar lwyddiant a dilyniant dysgwyr;
- cynrychioli'r Coleg yn y cyfarfodydd rhwydwaith a digwyddiadau.

Cymwysterau Staff

Yn unol â blaenoriaeth CAVC i wella ansawdd a chyflawni dysgu rhagorol, mae'r tabl canlynol yn amlinellu'r cymwysterau gofynnol sydd eu hangen ar gyfer **athrawon sgiliau arbenigol.**

Hanfodol ar gyfer Staff Newydd

Llythrennedd	Rhifedd	Llythrennedd Digidol	ESOL	Cyflogadwyedd
TAR neu Dystysgrif mewn Addysg	TAR neu Dystysgrif mewn Addysg	TAR neu Dystysgrif mewn Addysg	TAR neu Dystysgrif mewn Addysg	TAR neu Dystysgrif mewn Addysg
TAR neu Dystysgrif mewn Addysg, YNGHYD AG UN O'R ARBENIGEDDAU CANLYNOL				
Lefel A Saesneg gradd C neu uwch	Lefel A Mathemateg gradd C neu uwch	Cymwysterau L3 gyda chynnwys digidol sylweddol	CELTA (Tystysgrif Dysgu Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill)	3 blynedd o brofiad mewn swydd-rôl L3
Sgil Hanfodol ar lefel 3	Sgil Hanfodol ar lefel 3	Sgil Hanfodol ar lefel 3		Sgil Hanfodol ar lefel 3

Dymunol ar gyfer staff newydd yn ychwanegol at yr uchod:

Llythrennedd	Rhifedd	Llythrennedd Digidol	Cyflogadwyedd
Gradd mewn Saesneg	Gradd mewn Mathemateg	Gradd mewn pwnc perthnasol i TGCh	

Staff presennol:

Ar gyfer y staff presennol hynny nad oes ganddynt y cymwysterau a argymhellir a nodir yn y tabl uchod, bydd cyfle i gymryd rhan mewn DPP i ennill y cymhwyster erbyn mis Ebrill 2023.

Yn unol â blaenoriaeth CAVC i wella ansawdd a chyflawni dysgu rhagorol, mae'r tabl canlynol yn amlinellu'r cymwysterau gofynnol ar gyfer athrawon ac aseswyr sy'n datblygu sgiliau dysgwyr, **fel rhan o'u prif raglen alwedigaethol.**

Hanfodol ar gyfer Staff Newydd:

Llythrennedd	Rhifedd	Llythrennedd Digidol	Cyflogadwyedd
TAR, Tystysgrif mewn Addysg/ Cymhwyster Aseswr. (D32, D33, A1 neu TAQA L3) *	TAR, Tystysgrif Addysg/ Cymhwyster Aseswr. (D32, D33, A1 neu TAQA L3) *	TAR, Tystysgrif Addysg/ Cymhwyster Aseswr. (D32, D33, A1 neu TAQA L3) *	TAR, Tystysgrif Addysg/ Cymhwyster Aseswr. (D32, D33, A1 neu TAQA L3) *
TAR. Tystysgrif mewn Addysg, neu Gymhwyster Aseswr, YNGHYD AG UN O'R ARBENIGEDDAU CANLYNOL			
TGAU Saesneg Gradd C neu uwch.	TGAU Mathemateg Gradd C neu uwch.		3 blynedd o brofiad mewn swydd-rôl L3
Sgil Hanfodol ar y lefel uwch na'r lefel a addysgir.	Sgil Hanfodol ar y lefel uwch na'r lefel a addysgir.	Sgil Hanfodol ar y lefel uwch na'r lefel a addysgir.	Sgil Hanfodol ar y lefel uwch na'r lefel a addysgir.

* Dylai fod gan athrawon gymhwyster TAR neu Dystysgrif mewn Addysg, dylai fod gan Aseswyr gymhwyster aseswr.

Staff Presennol:

Ar gyfer y staff presennol hynny nad oes ganddynt y cymwysterau a argymhellir a nodir yn y tabl uchod, bydd cyfle i gymryd rhan mewn DPP i ennill y cymhwyster erbyn mis Ebrill 2023.

DPP

- Dylai'r holl staff gymryd rhan yn rheolaidd mewn DPP sy'n ymwneud â'r sgil(iau) y maent yn eu haddysgu.
- Dylai staff gymryd cyfrifoldeb am fynychu digwyddiadau hyfforddi mewnol ac allanol i sicrhau eu bod yn cynnal y sgiliau diweddaraf.
- Dylai staff sicrhau eu bod yn cofnodi eu presenoldeb mewn digwyddiadau DPP gyda'r gweinyddwr Datblygu Staff, er mwyn i'w cofnod DPP gael ei gadw'n gywir ac yn gyfredol.
- Dylai staff sy'n arbenigo mewn sgiliau fynychu o leiaf 2 ddigwyddiad safoni, bob blwyddyn academaidd.

Lleoliad a Mynediad i'r Strategaeth

Mae'r Strategaeth ar gael o'r wefan / mewnrwyd staff / Moodle a gall fod wedi dyddio os caiff ei argraffu.

Dyddiad Cymeradwyo: 1af o Fehefin 2020	**Rheolwr Cyfrifol:** Pennaeth Llwyddiant Dysgwyr
Cymeradwywyd gan: CQSA	**Arweinydd Gweithredol:** Pennaeth Cynorthwyol
Dyddiad Adolygu: 20fed o Fehefin 2023	**Hygyrch i Fyfyrwyr:** Ydy